**Teitl: Rhyfel a Heddwch**


| Teitlau | A oes heddwch? | Sut mae crefyddau'r byd yn ymateb i rhyfel? | Beth yw dy farn di? |
|---|---|---|---|
| **Rhesymeg** | **YMWADIAD:** Mae'r Nodiadau i Athrawon wedi'u diweddaru er mwyn gallu defnyddio'r adnodd drwy Gwricwlwm i Gymru. Wedi dweud hynny, mae cynnwys yr erthyglau wedi'i archifo ac nid yw'r wybodaeth wedi'i diweddaru. Mae'r erthyglau yn cael eu cadw ar y wefan gan fod y cynnwys yn parhau i fod yn berthnasol i Gwricwlwm i Gymru: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.<br><br>**Pedwar diben 'Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes'**<br>**Drwy ddysgu am Ryfel a Heddwch fel rhan o'u gwersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu yn:**<br>• Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu egluro'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n eu dysgu;<br>• Unigolion iach a hyderus sydd â gwerthoedd cadarn ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesol;<br>• Cyfranogwyr mentrus, creadigol sy'n rhoi o'u hegni a'u sgiliau er budd pobl eraill;<br>• Dinasyddion moesol, dysgedig a fydd yn ymgysylltu â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd.<br><br>**Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru**<br>**Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i:**<br><br>• Ymgysylltu â chwestiynau athronyddol a thyngedfennol, a'u harchwilio<br>• Ymgymryd ag ymholiadau ac ymgysylltu â ffynonellau o ddoethineb ac athroniaethau<br>• Datblygu a mynegi eu safbwyntiau dysgedig eu hunain<br>• Defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am safbwyntiau byd-eang crefyddol a heb fod yn grefyddol i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain<br>• Archwilio'r ffyrdd mae argyhoeddiadau athronyddol crefyddol a heb fod yn grefyddol wedi dylanwadu ar brofiad dynol drwy gydol hanes<br>• Gwerthuso amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a heb fod yn grefyddol a defnyddio tystiolaeth ohonynt i ymgysylltu â materion moesegol a moesol<br>• Archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach ac ymateb yn sensitif iddynt<br>• Datblygu gwerthoedd cadarn a sefydlu eu credoau moesol a'u hysbrydolrwydd<br>• Trafod eu persbectifau eu hunain a phersbectifau eraill, a myfyrio arnynt<br><br>**Y lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**<br>**Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio amrywiaeth o** | | |

| Teitlau | A oes heddwch? | Sut mae crefyddau'r byd yn ymateb i rhyfel? | Beth yw dy farn di? |
|---|---|---|---|
| | **gysyniadau yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r is-lensys isod:**<br>• Chwilio am ystyr a diben;<br>• Y byd naturiol a phethau byw;<br>• Hunaniaeth a pherthyn;<br>• Awdurdod a dylanwad;<br>• Perthnasoedd a chyfrifoldeb;<br>• Gwerthoedd a moeseg;<br>• Taith bywyd;<br><br>*Noder bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu pennu'n lleol drwy faes llafur cytunedig. Mae gan bob awdurdod lleol ei faes llafur cytunedig ei hun ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae'n rhaid i ysgolion ei ystyried. Mae pob maes llafur sydd wedi'i gytuno wedi ystyried fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y cyfeirir atynt uchod ac isod.<br><br>**Dolenni Defnyddiol:**<br>**Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#religion,-values-and-ethics-guidance**<br>**Canllawiau Dyniaethau Hwb - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities**<br>**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/statements-of-what-matters/**<br>**Themâu Trawsgwricwlaidd - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#cross-cutting-themes** | | |
| **Geirfa allweddol** | ARCHDDERWYDD – Arweinydd yr orsedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol – *Archdruid.*<br><br>PENBEDW – Birkinhead – lle cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1918.<br><br>ELLIS HUMPHREY EVANS – Enw bedydd Hedd Wyn.<br><br>CEFN PILKEM – Man ger Ypres yng ngwlad | Rhyfel – sefyllfa o wrthdaro arfog rhwng dwy gymdeithas neu wlad – *war.*<br>Trais - ymddygiad sy'n cynnwys defnydd o rym corfforol gyda'r bwriad o frifo neu ladd - *violence*.<br>Gwrthdaro – Taro yn erbyn, bod mewn anghytundeb, anghydweld – *conflict.*<br>Heddwch – y gallu i fyw ar delerau da gydag eraill gan osgoi gwrthdaro - *peace*.<br>Heddychiaeth - y gred fod unrhyw ffurf ar drais neu ryfel yn gwbl annerbyniol – *pacifism.* | Caplan - clerigwr neu weinidog o fewn i'r ffydd Gristnogol neu ffydd arall sy'n gweithio gyda'r lluoedd arfog – *chaplain*<br><br>Lluoedd arfog: grŵp o bobl sy'n cario arfau – *armed forces*<br><br>Gwrthdaro - Taro yn erbyn, bod mewn anghytundeb, anghydweld – *conflict.*<br><br>Swyddogaeth - rôl person, swydd; cylch neu |

| Teitlau | A oes heddwch? | Sut mae crefyddau'r byd yn ymateb i rhyfel? | Beth yw dy farn di? |
|---|---|---|---|
| | Belg lle lladdwyd Hedd Wyn.<br><br>HEDDYCHWR – Rhywun sy'ngwrthwynebu'n gyfangwbl y defnydd o drais - *pacificst/peacemaker*.<br><br>GANDHI – Arweinydd y mudiad sicrhaodd annibynniaeth i India<br><br>MARTIN LUTHER KING – arweinydd y mudiad hawliau sifil yn America.<br><br>AHIMSA – yr egwyddor o beidio niweidio unrhyw beth byw.<br><br>'CONSHI' – llys-enw dirmygus a ddefnyddid am wrthwynebwyr cydwybodol - *conscientious objector.*<br><br>BONHOEFFER – Diwinydd o'r Almaen a wrthwynebodd Hitler.<br><br>CYRNOL VON STAUFFENBERG – Uchel Swyddog ym myddin yr Almaen arweiniodd gynllwyn i lofruddio Hitler.<br><br>CYNAN – Bardd a chymeriad hynod o bwysig yn hanes eisteddfodol Cymru.<br><br>CALFARIA (Galfaria) - Ble cafodd Iesu Grist ei groeshoelio – *Calvary.* | Terfysgaeth – defnyddio trais annerbyniol yn erbyn eraill, aelodau diniwed o gymdeithas yn aml iawn - *terrorism*.<br>Karma – gweithredoedd o bob math sy'n arwain at ganlyniadau.<br>Ahimsa – yr egwyddor o beidio niweidio unrhyw beth byw.<br>Dulliau di-drais – tynnu sylw at annhegwch heb ddinistrio eiddo na bygwth na brifo pobl.<br>Rhyfel Cyfiawn – rhyfel i amddiffyn y diniwed neu rai a orthrymir ac i sicrhau cyfiawnder a heddwch;<br>Jihad – y jihad mwyaf yw brwydr bersonol i fyw yn dda. Y jihad lleiaf yw ymladd yn enw Islam. | faes arbennig o weithgarwch – *role*<br><br>Gweinidog/ficer - person sy'n gweithio i'r eglwys Gristnogol – *minister or vicar*<br><br>Lifrai - Gwisg unffurf swyddogol – *uniform*<br><br>Difaru - to regret, *to be sorry for an action*<br><br>Tyngu llw - addo gwneud rhywbeth – *to swear an oath*<br><br>Tramgwyddo - torri ar – *to offend/ to violate*<br><br>Hawliau dynol - hawliau y dylai fod ar gael i bawb - *human rights*<br><br>Cydwybod - y peth mewnol sy'n gwneud i ni adnabod gweithredoedd da/drwg – *conscience*<br>Atal - rhoi stop ar / rhwystro – *to stop/prevent*<br><br>Cyd-ddyn - aelod o'r hil ddynol – *fellow man*<br><br>Difrod troseddol - torri/gwneud niwed i rywbeth a hynny yn erbyn y gyfraith- *criminal damage*<br><br>Egwyddorion - Barn, argyhoeddiad moesol, sy'n rheoli ymddygiad a gweithredoedd person – *principles* |

| Teitlau | A oes heddwch? | Sut mae crefyddau'r byd yn ymateb i rhyfel? | Beth yw dy farn di? |
|---|---|---|---|
| | PRYDDEST -  Cerdd hir<br><br>FLOSSENBURG – un o wersylloedd crynhoi Hitler lle cafodd Bonhoeffer ei ddienyddio. | | Prifardd - bardd sydd wedi ennill y gadair neu'r goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol – *bard who has won the chair or the crown at the National Eisteddfod*<br><br>Llawysgrif - Llyfr, dogfen  a ysgrifennwyd â'r llaw (weithiau dogfen sy'n hen iawn)- *manuscript*<br><br>Offeren - Gwasanaeth sy'n cynnwys yr Ewcharist neu  Swper yr Arglwydd ac fel arfer sy'n dilyn trefn yr Eglwys Gatholig Rufeinig – *mass*<br><br>Kosovo - Ar ôl i Yugolavia chwalu fel gwlad yn 1990 cafwyd brwydro ffyrnig rhwng yr Albaniaid a phobl Serbia, a bu'n rhaid i luoedd NATO ymyrryd.  Daeth y brwydro i ben yn 1999<br><br>Mahabharata - cerdd hir Hindwaidd. |
| **Geiriau chwilio** | Heddwch<br>Eisteddfod Genedlaethol<br>Rhyfel Byd Cyntaf<br>Bwli<br>Ail Ryfel Byd<br>Hitler<br>Corfflu Meddygol<br>Cynan<br>Hedd Wyn | Rhyfel<br>Heddwch<br>Heddychiaeth<br>Karma<br>Ahimsa<br>Jihad<br>Muhammad<br>Iesu. | Rhyfel<br>Heddwch<br>Adar angau<br>Milwr<br>Byddin<br>Caplan<br>Lluoedd arfog<br>Trethi<br>Protest |

<table>
<tr><th>Teitlau</th><th>A oes heddwch?</th><th>Sut mae crefyddau’r byd yn ymateb i rhyfel?</th><th>Beth yw dy farn di?</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>Cymdeithas y Cymod<br>Peacemakers<br>Llyfr Gwyn<br>Egwyddor</td></tr>
<tr><td>Tasgau dosbarth</td><td colspan="3">Tasgau ysgrifennu estynedig sy’n gofyn i’r disgyblion i ddefnyddio’r 3 erthygl, cyfeirio at gredoau/dysgeidiaethau ac arferion crefyddol wrth ymateb i gwestiynau sylfaenol/crefyddol.<br><br>Llafaredd:<br>Ystyriwch ddefnyddio strategaethau megis, ‘twnel meddwl’ ‘conscience alley’. Efallai bydd angen cyd-baratoi mat iaith ymlaen llaw.<ul><li>Trafodwch ddatganiad Gandhi: “Bydd llygad am lygad yn gwneud y byd cyfan yn ddall.”</li><li>A fyddech chi’n fodlon arwyddo Llyfr Gwyn Caerfyrddin? Ar sail eich darllen, esboniwch eich penderfyniad.</li><li>Pe fyddech yn prynu pabi ar gyfer Sul y Cofio, pa babi (coch neu wyn) fyddech chi’n ei dewis a pham? Oes dewis o babis yn eich ysgol neu gymuned chi?</li><li>Paratowch sesiwn addoli ar y cyd er mwyn cofnodi ‘Diwrnod Heddwch Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig - International Peace Day UN’ (21.09.17) neu ‘Ddiwrnod Ewyllys Da yr yUrdd’ (18.05.18).</li><li>Paratowch raglen radio neu bodlediad sy’n cyflwyno hanes credinwr sydd wedi gweithio dros heddwch.</li></ul><br>Creadigol:<br>Ystyriwch gydweithio gyda’r adran Gelf.<ul><li>Lluniwch boster neu ddarn o waith celf sy’n cyferbynnu rhwng rhyfel a heddwch ar gyfer arddangosfa ysgol. Gofalwch gynnwys symbolau sy’n gysylltiedig â’r ddau. Beth am gynnwys rhai dyfyniadau crefyddol? Ysgrifennwch baragraff cynhwysfawr yn esbonio’ch dewis o ddelweddau, dyfyniadau, technegau artistig a lliwiau. (Gweler: http://www.natre.org.uk/about-natre/projects/spirited-arts/spirited-arts-2017/ ).</li><li>Lluniwch logo Google er mwyn coffau heddychwr.</li><li>Dewiswch ddyfyniad sy’n berthnasol i’r thema ‘Heddwch’ a chyfansoddwch gân sy’n addas ar gyfer sesiwn addoli ar y cyd.</li><li>Gweithiwch mewn parau i baratoi poster yn cyfleu hanes un person sydd wedi gweithio dros heddwch oherwydd eu ffydd. Paratowch arddangosfa ar gyfer coridor yr ysgol neu mewn ffenest siop wag.</li></ul></td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Teitlau</th><th>A oes heddwch?</th><th>Sut mae crefyddau’r byd yn ymateb i rhyfel?</th><th>Beth yw dy farn di?</th></tr>
<tr><td></td><td colspan="3">Ysgrifennu<br>• Trydarwch neges sy’n coffau cyfraniad heddychwr.<br>• Bu traddodiad hir o heddychiaeth yng Nghymru yn ystod yr 20fed ganrif gyda nifer o lenorion ac eraill yn gryf o blaid heddychiaeth ar sail eu credoau Cristnogol. Beth oedd profiadau George M.Ll. Davies, Gwenallt, Gwynfor Evans ac eraill?<br><br>Gweler y safleoedd canlynol:<br>https://www.llgc.org.uk/ymgyrchu/Heddwch/Heddychiaeth/<br><br>https://www.llgc.org.uk/ymgyrchu/Heddwch/CND/index.htm<br>‘Nid oes lle i grefydd ar faes y gâd.’ Trafodwch.<br><br>Rhifedd<br>• Yn 2017 mae Gwledydd Prydain yn unig am wario dros £47 Biliwn ar amddiffyn ac arfau. Gan ddefnyddio dadleuon moesol a chrefyddol lluniwch ddadl yn erbyn y gwariant yma. Oes posib amddiffyn y gwariant?<br><br>• Casglwch wybodaeth ystadegol am wariant milwrol gwahanol wledydd. Gallwch wneud siartiau a graffiau er mwyn cymharu gwahanol wledydd. Sut mae’r gwledydd yn cyfiawnhau’r fath wariant?</td></tr>
<tr><td>Tasgau ymestynnol</td><td>• Mewn grwpiau trafodwch sefyllfa’r bwli – be fydde chi’n wneud mewn sefyllfa o’r fath a pham?</td><td>• </td><td>• Beth sy’n cysylltu’r tri sydd wedi gweithio yn y lluoedd arfog? Beth sy’n cysylltu’r heddychwyr? Efallai bydd map cysyniad yn</td></tr>
</table>

| Teitlau | A oes heddwch? | Sut mae crefyddau'r byd yn ymateb i rhyfel? | Beth yw dy farn di? |
|---|---|---|---|
| | • Ymchwiliwch i resymau (daliadau crefyddol ag unrhyw resymau eraill) Gandhi neu Martin Luther King dros beidio defnyddio trais ac yna ysgrifennwch ymgom gan un ohonynt yn ceisio perswadio arweinwyr y byd i roi heibio eu harfau.<br><br>• Ymchwiliwch ymhellach i hanes cynllwyn Cyrnol Von Stauffenberg. Gallech wylio rhannau o'r ffilm 'Valkyrie'. A ydych yn credu i'r cynllwynwyr weithredu'n gywir ai peidio?<br>(Beth am gyfyng-gyngor Bonhoeffer?).<br><br>• Mewn grwpiau o bedwar cymerwch rôl pob un o'r carfannau y cyfeirir atynt yn yr erthygl, sef:<br><br>a. Yn barod i ymladd yn erbyn drygioni (sant sipahi)<br><br>b. Ddim yn barod i ymladd (Gandhi / Martin Luther King)<br><br>c. Yn wrthwynebus i ryfel ond yn penderfynu gwneud (Bonhoeffer)<br><br>d. Ddim yn barod i godi arfau, ond yn barod i helpu yn y lluoedd | Edrychwch ar y poster. Yn anffodus mae llawer heddiw yn gweld crefydd fel prif achos gwrthdaro a rhyfel yn ein byd. I ba raddau y mae hyn yn wir yn eich barn chi? Edrychwch ar enghreifftiau o wrthdaro a rhyfela ar draws y byd.<br><br>• Casglwch wybodaeth bellach am safbwynt Iesu Grist a'r Testament Newydd, Muhammad a'r Quran, am yr angen am heddwch.<br><br>• Bu 2016 – 17 yn gyfnod o etholiadau niferus. Ysgrifennwch lythyr at eich cynghorydd, aelod cynulliad neu aelod seneddol gan fynegi eich barn am ryfel a'r angen am heddwch.<br><br>• Lluniwch boster sy'n cyferbynnu rhwng rhyfel a heddwch. Gofalwch gynnwys symbolau sy'n gysylltiedig â'r ddau. Beth am gynnwys rhai dyfyniadau crefyddol? | help i chi gynllunio'ch ateb.<br><br>• Mae Sian Cwper yn atal 12% o'u treth rhag iddo gael ei ddefnyddio i ddibenion milwrol. Sut ddylai'r llywodraeth gwario'r arian a daw o'r trethi? Ystyriwch: yr amgylchedd, addysgu, iechyd, diogelwch, lles, gwaith, amddiffyn. Gwnewch siart gylch i ddangos eich penderfyniad.<br><br>• A fyddech chi'n llofnodi Llyfr Gwyn Caerfyrddin ac yn '*ymrywmo i weithio dros heddwch yn y byd*'? Esboniwch eich ateb.<br><br>• Gwahoddwch ymgyrchydd heddwch i'r ysgol. Trefnwch bod un ohonoch yn croesawu'r ymgyrchydd a bod un arall yn talu'r diolchiadau. Bydd angen i bawb baratoi cwestiynau addas. Ystyriwch ysgrifennu erthygl byr i newyddlen yr ysgol neu'r papur bro lleol.<br><br>• Lluniwch Neges Ewyllys Da i'r Urdd.<br><br>• Paratowch swydd ddisgrifiad ar gyfer caplan yn y lluoedd arfog. Ysgrifennwch lythyr cais ar gyfer y swydd.<br><br>• Beth yw record pleidleisio eich Aelod Seneddol chi mewn dadleuon sy'n |

| Teitlau | A oes heddwch? | Sut mae crefyddau'r byd yn ymateb i rhyfel? | Beth yw dy farn di? |
|---|---|---|---|
| | meddygol (R R Williams)<br><br>a chynhaliwch ddadl ar y testun 'Nid yw defnyddio trais byth yn gywir.'<br><br>• Gwyliwch rannau o'r ffilm Hedd Wyn. A oes hawl gan y llywodraeth i orfodi pobl i ymladd yn groes i'w hewyllys?<br><br>• Ceisiwch ddarganfod mwy am y syniad o sant-sipahi mewn Sikhaeth. A yw'n bosibl bod yn sant ac yn filwr?<br><br>• Sut fydde chi'n cofio am y rhai laddwyd mewn rhyfeloedd? | | ymwneud â gwariant ar y lluoedd arfog/amddiffyn, ac ymyrraeth milwrol Prydain mewn rhyfeloedd tramor. https://www.theyworkforyou.com Ymchwiliwch i'r resymau oedd yn sail i benderfyniad eich aelod seneddol. |
| **Adnoddau pellach** | Yr Ysgwrn<br>http://www.eryri-npa.gov.uk/visiting/yr-ysgwrn<br><br>Diffodd y Sêr - Hanes Hedd Wyn gan Haf Llywelyn<br><br>Arddangosfa Llyfrgell Genedlaethol<br><br>Ffilm Valkyrie | Pdf - Beth mae Islam yn ei ddweud mewn gwirionedd<br>Beibl.net http://beibl.net/<br>Qu'ran ar lein https://quran.com/<br>Cymdeithas y Cymod<br>http://www.cymdeithasycymod.org.uk/<br>Muslim Council of Wales<br>http://muslimcouncilwales.org.uk/about-us-welsh/<br>Hindu Council of Wales:<br>http://hinducouncilofwales.org.uk/<br><br>Podcast (Saesneg) gyda Saleem Kidwai, Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Mwslimaidd | Lle roeddwn i – Cleif Harpwood yn esbonio hanes cyfansoddi 'Mr Duw'.<br>http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/35881362<br>Cymdeithas y Cymod<br>http://www.cymdeithasycymod.org.uk/ |

| Teitlau | A oes heddwch? | Sut mae crefyddau'r byd yn ymateb i rhyfel? | Beth yw dy farn di? |
|---|---|---|---|
| | | Cymru - https://soundcloud.com/huw-onllwyn-jones | |
| | **Adnoddau ar gyfer Dydd y Cofio - http://mailchi.mp/wcia/2017-wales-schools-debating-championships-registration-open-pencampwriaethau-dadlau-ysgolion-cymru-1180185?e=57625aee9c** | | |